Nursing & Midwifery Council

# Diweddariad canol-blwyddyn cofrestr Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i Gymru

1 Ebrill – 30 Medi 2025



Mae ein data unigryw yn rhoi darlun o'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru – faint o bobl sy'n ymuno ac yn ymadael â'r proffesiynau, ble cawsant eu haddysgu, eu nodweddion demograffig a mwy. Mae'r data'n seiliedig ar bobl sydd wedi rhoi cyfeiriad yng Nghymru i ni.

## Y darlun mawr

Ar 30 Medi, mae **41,844** o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar y Gofrestr yng Nghymru nawr – mae hynny'n record ac yn **0.9%** (**392**) yn fwy na chwe mis yn ôl. Mae hyn yn cymharu â thwf o **0.8%** yn y Gofrestr yn gyffredinol ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Fodd bynnag, mae cyfradd y twf yng Nghymru yn arafach na'r un cyfnod y llynedd pan welwyd twf o **1.6%** yn y Gofrestr (**632** weithwyr proffesiynol). Y rheswm pennaf dros hynny ydy gostyngiad yn nifer y bobl yng Nghymru a ymunodd â'r Gofrestr am y tro cyntaf.

Ymunodd cyfanswm o **925** o weithwyr proffesiynol yng Nghymru â'r Gofrestr yn y 6 mis hyd at 30 Medi – **15.3%** (**167**) yn llai nag yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Mae hynny'n cynnwys 15.3% (**153**) yn llai o nyrsys ac **16.7%** (**14**) yn llai o fydwragedd. Roedd nifer y cymdeithion nyrsio yng Nghymru a ymunodd â'r Gofrestr yr un faint â'r un cyfnod y llynedd (saith).

**41,844**
o weithwyr proffesiynol yng Nghymru

Cynnydd o
**392**
ers mis Ebrill
+0.9%

**Nyrsys**
39,307
+0.9%

**Bydwragedd**
2,153
+1.8%

**Cofrestreion deuol**
343
-1.7%

**Cymdeithion nyrsio**[1]
41
+10.8%

Yn y chwe mis diwethaf o gymharu â'r un cyfnod yn 2024

Ymunodd
**925**
â'r Gofrestr
-15.3%

Ymadawodd
**834**
â'r Gofrestr
+13.3%

1 Cyflwynwyd swydd y cydymaith nyrsio yn 2019. Dim ond yn Lloegr y gall cymdeithion nyrsio ymarfer yn y swydd honno. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno cymdeithion nyrsio yng Nghymru yn ddibynnol ar newidiadau i'n deddfwriaeth.

Mae'n bwysig nodi bod y data sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn wedi'u casglu ar 30 Medi – yng nghanol y cyfnod brig ar gyfer carfannau newydd o raddedigion sy'n ymuno â'r Gofrestr.

Mae'r golwg 12 mis a ddarperir gan ein hadroddiad cofrestru blynyddol yn ffynhonnell fwy dibynadwy ar gyfer nifer yr ymunwyr newydd na'r adroddiad canol blwyddyn, oherwydd gall y rhan fwyaf o'r garfan ymuno â'r Gofrestr ar ôl i'r data canol blwyddyn gael eu casglu.[2]

## Mae amrywiaeth ethnig yn parhau i dyfu

Mae proffil y bobl yng Nghymru sydd ar y Gofrestr wedi dod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd dros amser.


Bu cynnydd o **14.4%** yn y gyfran o'r holl weithwyr proffesiynol sydd o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig yn y chwe mis hyd at fis Medi 2025. Mae hynny **0.7 pwynt canran** yn uwch nag ar 1 Ebrill (**13.7%**) ac **1.4 pwynt canran** yn uwch o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (**13%**).

Mae hynny'n golygu ei bod yn bwysicach nag erioed i'r holl sector iechyd a gofal fabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch at hiliaeth a gwahaniaethu. Yn yr NMC, rydym wedi ymrwymo i sicrhau hynny drwy ein Cynllun Trawsnewid Diwylliant – mae hyn wedi cynnwys llofnodi Siarter Gwrth-Hiliaeth UNISON a chynyddu'r amrywiaeth ethnig ymhlith aelodau ein paneli Addasrwydd i Ymarfer. Rydym hefyd wedi rhoi addewid y byddwn yn dileu rhagfarn o atgyfeiriadau Addasrwydd i Ymarfer gan gyflogwyr ac o ganlyniadau mewn addysg a hyfforddiant nyrsio a bydwreigiaeth.

2 Wrth edrych ar y flwyddyn gyfan ers mis Medi 2024, mae ein data yn dangos cynnydd o 1.7% (41,844). Mae hyn 0.7% yn arafach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Medi 2023 – Medi 2024).

Mae **14.4%** o'r Gofrestr o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Yn 2020, roedd **9.5%** o'r Gofrestr o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

**Rhaniad y Gofrestr yn ôl rhywedd**




**Ym mis Medi 2025**

**45 mlwydd, 2 fis**
oedd cyfartaledd oedran y bobl ar y Gofrestr

**Y Gofrestr ym mis Medi 2025**

**87.5%** Wedi'u haddysgu yn y Deyrnas Unedig

**12.5%** Wedi'u haddysgu'n rhyngwladol

## Recriwtio rhyngwladol

Nid oes modd byth i'n data ar gyfer gweithwyr proffesiynol a addysgwyd yn rhyngwladol yn ein hadroddiadau ar gyfer y pedair cenedl fod yn gwbl derfynol oherwydd y gall gweithwyr proffesiynol fod heb gyfeiriad cofrestredig yn y Deyrnas Unedig ar yr adeg y maent yn cofrestru. Mae hynny'n golygu y gall fod gweithwyr proffesiynol yn gweithio yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data hwn oherwydd nad ydynt eto wedi rhoi eu cyfeiriad yn y DU i ni.

Rydym yn gwybod bod o leiaf **122** o weithwyr proffesiynol yng Nghymru a addysgwyd yn rhyngwladol wedi ymuno â'r Gofrestr. Mae hynny'n ostyngiad o **42.2%** o gymharu â'r **211** o unigolion rhyngwladol a ymunodd yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Mae hyn yn adlewyrchiad bras o'r darlun ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan sy'n dangos cwymp sydyn mewn recriwtio rhyngwladol.

India ydy ffynhonnell unigol fwyaf recriwtio rhyngwladol yng Nghymru. Yn ystod y chwe mis diwethaf, roedd o leiaf **55** o weithwyr proffesiynol yng Nghymru a ymunodd â'r Gofrestr yn dod o India – gostyngiad o **57.7%** o **130** yn ystod yr un cyfnod yn 2024.



Ymunwyr newydd o wledydd addysg nad ydynt yn y DU yn ystod y chwe mis diwethaf, a newid o'r un cyfnod yn 2024

1 **India** 55 ↓ -57.7%

2 **Ghana** 20 ↑ +53.8%

3 **Nigeria** 18 ↑ +80.0%

Yn y chwe mis diwethaf o gymharu â'r un cyfnod yn 2024

↑ +3.6% **58** o bobl a ymadawodd â'r Gofrestr wedi'u haddysgu'n rhyngwladol

Faint o amser sydd ers cofrestru gyntaf, newid yn y chwe mis diwethaf

↑ +1.5% **Pum mlynedd neu lai** 9,559

↑ +5.5% **Pump i 10 mlynedd** 6,614

↑ +0.4% **10 i 30 mlynedd** 17,491

↓ -1.9% **30 mlynedd neu fwy** 8,180

## Cyfraddau cadw cyffredinol

Bu cynnydd yn nifer y bobl yng Nghymru a ymadawodd â'r Gofrestr, gydag **834** yn gadael yn ystod y chwe mis diwethaf. Fel cyfran o'r Gofrestr, gwelwn fod **2.0%** o'r gweithwyr proffesiynol yng Nghymru wedi ymadael yn ystod y chwe mis diwethaf, sy'n gynnydd bychan o **1.8%** yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

## Rhannu canfyddiadau er mwyn cefnogi'r sector

Ein gobaith yw y bydd y trosolwg hwn, ynghyd â'n tablau data cynhwysfawr, yn cefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu a chomisiynu addysg ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig – gan sicrhau'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwasanaeth y mae pobl a chymunedau yn dibynnu arnynt ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant.

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'n data neu syniadau ynglŷn â sut y gallem wella pa mor ddefnyddiol ydy'r adroddiad hwn, cysylltwch â ni drwy research@nmc-uk.org.



**Paul Rees MBE**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd





**Ym mis Medi 2025**

**1.5%** Datganodd **643** o weithwyr proffesiynol bod ganddynt anabledd

**Ym mis Medi 2025, a'r newid yn y chwe mis diwethaf**

**+0.6%** **Nyrsys oedolion** 30,471

**+1.9%** **Nyrsys Plant** 3,155

**+0.7%** **Nyrsys anableddau dysgu** 1,006

**+1.2%** **Nyrsys iechyd meddwl** 5,773

**Ni ddylem anghofio bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data sy'n darparu gofal diogel ac effeithiol i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud i'r bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.**



# Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

## Ein gweledigaeth yw darparu addysg ac ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel ac effeithiol ar draws pedair gwlad y DU – wedi'u rheoleiddio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth – sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gyda thegwch a chyfiawnder wrth wraidd popeth a wnawn.

Rôl yr NMC yw **amddiffyn y cyhoedd a chynnal hyder** yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth. Fel y rheoleiddiwr annibynnol mwyaf yn Ewrop o fwy na 860,000 o weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth, mae gennym rôl hanfodol wrth wireddu hyn.

Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod pob nyrs, bydwraig neu gymrawd nyrsio cofrestredig wedi elwa o **addysg effeithiol**. Rydym yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rydym hefyd yn sicrhau bod pob nyrs, bydwraig a chymrawd nyrsio ar ein Cofrestr yn bodloni **safonau ymddygiad ac ymarfer clir** sy'n amddiffyn y cyhoedd ac enw da ein proffesiynau.

Mae gennym ddyletswydd i **ymchwilio** i bryderon a chymryd camau i **amddiffyn y cyhoedd** yn yr achosion cymharol brin lle mae angen i ni gyfyngu ar hawl gweithiwr proffesiynol nyrsio neu fydwreigiaeth i ymarfer.

**Rydym yn adeiladu NMC newydd** gyda gonestrwydd, tegwch, parch, ecwiti ac effeithiolrwydd wrth ei wraidd.

Rydym yn benderfynol o wella a moderneiddio ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n hyderus yn ein gwaith.

Fel rhan o hyn, byddwn yn canolbwyntio ar **gryfhau ein gwaith rheoleiddio craidd** ac yn buddsoddi mewn effeithiolrwydd gwell.


23 Portland Place, London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181 www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk @nmcnews
The Nursing and Midwifery Council

Nursing & Midwifery Council

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).